**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)**

**Cynllun Aberthu Cyflog Rhannu Cost Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (SCAVC)**

# Cwestiynau Cyffredin

Mae'r cwestiynau a'r atebion isod yn ganllaw syml ar y Cynllun Aberthu Cyflog Rhannu Cost Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a adwaenir fel Cynllun SCAVC neu Gynllun SSSCAVC.

Noder na all Cyngor Gwynedd, Cronfa Bensiwn Gwynedd na'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ddarparu cyngor ar addasrwydd Cynllun SCAVC i staff. Mae opsiynau eraill ar gael ar gyfer cynilo at ymddeoliad. Am fanylion ynghylch opsiynau eraill ar gyfer cynilo at ymddeoliad yn y CPLlL, cyfeiriwch at wefannau'r CPLlL neu Gronfa Bensiwn Gwynedd neu holwch am gyngor ariannol annibynnol gan ymgynghorydd o'ch dewis.

### 1. Beth yw Rhannu Cost Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (SCAVC)?

Mae SCAVC yn rhoi cyfle i staff sy'n aelodau o'r CPLlL dalu cyfraniadau ychwanegol, er mwyn cynyddu eu buddion pensiwn pan fyddant yn ymddeol. Mae SCAVC yn ffordd effeithlon o gynilo at ymddeoliad, gan y byddwch yn talu llai o dreth a llai o yswiriant gwladol, ar yr amod bod eich incwm eisoes yn ddigonol fel eich bod yn talu treth ac yswiriant gwladol. Mae hyn hefyd yn amodol ar gyfyngiadau cyffredinol penodol a osodwyd gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF).

Os byddwch yn dewis talu SCAVC, mae'r cyfraniadau ychwanegol yn cael eu buddsoddi ar wahân yn eich dewis o gronfa/cronfeydd, sy'n cael eu rheoli gan Clerical Medical (gweler y ddolen gyntaf isod), sef Darparwr Cronfa SCAVC mewnol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Cronfa Bensiwn Gwynedd sy'n gweinyddu'r cynllun CPLlL ar gyfer Cyngor Gwynedd. Dylai eich cronfeydd SCAVC, gyda gobaith, dyfu dros amser a bydd ar gael ar eich ymddeoliad i'w drosi yn bensiwn ychwanegol (a adwaenir fel blwydd-dâl), neu, yn amodol ar gyfyngiadau penodol, bydd ar gael fel lwmp swm di-dreth neu gyfuniad o'r ddau. Bydd unrhyw log, incwm neu enillion cyfalaf a geir ar y SCAVC yn rhydd o dreth pan fydd yr arian yn cael ei fuddsoddi yn eich cynllun. Mae Clerical Medical yn cynnig amrediad o gronfeydd gyda risgiau buddsoddi amrywiol a bydd angen i chi edrych ar eu taflenni gwybodaeth cronfa buddsoddiadau am wybodaeth bellach (gweler yr ail ddolen isod)

Y cronfeydd sydd ar gael gan Clerical Medical:

https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/AelodauActif/Ychwanegu-at-Eich-Buddion/Cyfraniadau-Gwirfoddol-Ychwanegol/Cronfeydd-ar-gael.pdf

Canllaw Buddsoddwyr Clerical Medical:
https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/AelodauActif/Ychwanegu-at-Eich-Buddion/2019-Investors-Guide.pdf

### 2. Sut mae SCAVC yn gweithio?

Dan SCAVC, byddwch yn cytuno'n gytundebol i ostwng eich cyflog, a thrwy hynny, bydd Cyngor Gwynedd yn talu'r cyflog gros sy'n cael ei aberthu i'r gronfa SCAVC ar eich rhan.

Er mwyn cymhwyso fel trefniant "rhannu cost", byddwch yn cytuno yn ogystal i gyfrannu £1 o gyfanswm y swm SCAVC eich hun, na fydd yn ffurfio rhan o'r trefniant aberthu cyflog.

Er enghraifft, os byddwch yn cwblhau cais SCAVC yn nodi eich bod yn dymuno talu SCAVC o £50 bob mis, byddwch yn ymrwymo i drefniant aberthu cyflog am £49 y mis, gyda chyfraniad personol o £1 yn ychwanegol er mwyn dod â chyfanswm y cyfraniadau i fyny i'r lefel a ddymunir o £50.

Y fantais dros gyfraniadau AVC traddodiadol yw bod y swm a delir ar eich rhan gan Gyngor Gwynedd - y cyflog yr ydych wedi'i aberthu - yn gymwys am arbedion treth ac yswiriant gwladol, yn hytrach na'r elfen treth yn unig a fyddai'n cael ei arbed mewn cynllun AVC traddodiadol.

Yn sgil natur gytundebol y cytundebau aberthu cyflog, rhaid i chi ymrwymo i gytundeb i leihau eich cyflog gros am o leiaf 12 mis. Mae hyn yn golygu pan fyddwch yn dechrau ar eich trefniant SCAVC, rhaid i chi gael cytundeb cyflogaeth sy'n para mwy na 12 mis o ddyddiad cychwyn eich trefniant. Er bod yn rhaid i chi ymrwymo i 12 mis fan leiaf, mae modd i chi newid y swm yr ydych yn ei wario unrhyw bryd wrth gwrs.

### 3. Faint fedraf i ei dalu i mewn i SCAVC?

Dan reolau pensiwn, mae'r swm y gallwch chi a'ch cyflogwr ei dalu, yn ddamcaniaethol, i AVC yn hyd at 100% o'ch cyflog mewn unrhyw flwyddyn dreth, fodd bynnag, gan bod SCAVC yn cael eu gweithredu drwy drefniant aberthu cyflog, ni allwch gyfrannu swm drwy SCAVC a fyddai'n gostwng eich cyflog i lai na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Gallwch, fodd bynnag, aberthu swm a fyddai'n lleihau eich cyflog i lefel Isafswm Cyflog Cenedlaethol ac yna gyfrannu unrhyw swm dymunol pellach drwy drefniant AVC safonol; ni fyddwch ond yn cael budd o'r arbedion Yswiriant Gwladol ar y swm SCAVC.

Noder y bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod gennych ddigon o gyflog ar ôl unrhyw ostyngiadau SCAVC i fodloni'r holl ddidyniadau cyfreithlon o'r cyflog.

Mae'n bwysig cofio y gallwch fod yn destun ffi treth os byddwch yn gwneud arbedion pensiwn sy'n fwy na'r 'Lwfans Blynyddol' mewn unrhyw flwyddyn dreth. Dyma'r swm lle y gall gwerth hawliau pensiwn cronedig person dyfu mewn un flwyddyn yn rhydd o dreth. Mae'r cyfyngiadau yn cynnwys:

- y twf yng ngwerth eich prif fuddion CPLlL;
- unrhyw SCAVC a delir gennych chi a'ch cyflogwr; a
- chyfraniadau at gynlluniau pensiwn eraill wedi'u cofrestru yn y DU mewn blwyddyn dreth (cyn 6 Ebrill a 5 Ebrill y flwyddyn ganlynol).

Ar gyfer blwyddyn dreth 2024/25, y Lwfans Blynyddol ar gyfer pob unigolyn gydag incwm sy'n llai na £260,000 y flwyddyn yw £60,000. Gallwch fod yn destun Lwfans Blynyddol gostyngedig (taprog) os yw cyfanswm eich incwm yn fwy na £260,000. Mae Cyngor Gwynedd yn argymell eich bod yn ceisio cyngor ariannol a/neu dreth cyn talu SCAVC os ydych yn credu bod Lwfans Blynyddol taprog yn gymwys i chi. Byddwch hefyd yn destun cyfyngiad gostyngedig os byddwch chi wedi cael 'mynediad hyblyg' at unrhyw arbedion pensiwn prynu arian. Bydd eich cynllun pensiwn wedi rhoi gwybod i chi os yw hyn yn berthnasol i chi.

Am ragor o fanylion ynghylch y Lwfans Blynyddol, ewch i wefan yr CThEF
http://www.hmrc.gov.uk/pensionschemes/understanding-aa.htm

### 4. Faint fydda i yn ei arbed?

Bydd y swm y byddwch yn ei arbed yn amrywio ar eich amgylchiadau unigol, y swm yr ydych yn ei ennill a'r swm yr ydych yn dymuno ei gyfrannu drwy'r cynllun SCAVC.

Os yw eich enillion cyfredol eisoes yn is na'r trothwy ar gyfer talu treth ac yswiriant cenedlaethol o'ch cyflog, yna ni fyddwch yn gwneud unrhyw arbediad ar unrhyw gyfraniadau yr ydych yn eu gwneud drwy'r cynllun SCAVC. Efallai y byddwch yn dal i weld adenillion ar eich buddsoddiad, yn ddibynnol ar berfformiad y cronfeydd yr ydych wedi buddsoddi ynddynt, ond nid oes sicrwydd gyda hyn ac fe allai ostwng mewn gwerth.

## 5. Alla i weld enghraifft o'r arbedion?

Mae cyflog blynyddol Sian yn £20,000 ac mae'n drethdalwr cyfradd sylfaenol o 20% sy'n ystyried talu £1,200 i'r cynllun SCAVC. Os bydd Sian yn penderfynu ymuno â SCAVC, bydd ei chyflog blynyddol yn £1,188 yn llai, gan arwain at ostyngiad misol yn ei chyflog gros o £99. Ni fydd yn rhaid i Sian dalu unrhyw dreth incwm neu Yswiriant Gwladol ar y £99 a bydd hyn yn arbed £19.80 y mis iddi mewn treth incwm ac £7.92 mewn Yswiriant Gwladol - cyfanswm arbediad o £27.72 y mis neu £332.64 y flwyddyn.

Yn gyfnewid am aberthu £1,188 o'i chyflog, bydd Cyngor Gwynedd yn talu'r un swm i mewn i'w chronfa AVC tra bo Sian yn talu £1 y mis fel cyfraniad personol ganddi hi. Mae'r cyfraniad AVC o £1 yn cymhwyso ar gyfer rhyddhad treth ond nid am unrhyw ostyngiad Yswiriant Gwladol. I Sian, mae hyn yn golygu y bydd ei chyfraniad AVC personol (£12 y flwyddyn) yn costio £9.60 ar ôl rhyddhad treth.

Felly, drwy gymryd rhan mewn SCAVC, bydd y gost gros i Sian o fuddsoddi £1,200 yn ei chynllun SCAVC yn lleihau i gost net o £864.96, wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| Gostyngiad aberthu cyflog | £1,188.00 |
| Cyfraniad rhannu cost personol Sian | £12.00 |
| **Cyfanswm** | **£1,200.00** |
| **Llai** arbediad treth incwm ar aberthu cyflog | (£237.60) |
| **Llai** arbediad Yswiriant Gwladol ar aberthu cyflog | (£95.04) |
| **Llai** rhyddhad treth incwm ar gyfraniad personol Sian | (£2.40) |
| **Cost net SCAVC** | **£864.96** |

Er bod costau net SCAVC Sian yn £864.96, bydd ei chronfa AVC yn derbyn £1,200, sy'n gynnydd o 38.7% at ei chyfraniad net.

Mae'r tabl isod yn dangos sut bydd yr arbedion treth ac Yswiriant Gwladol misol a blynyddol yn digwydd:

| | **Misol** | **Blynyddol** |
|---|---:|---:|
| Cyflog gros (cyn treth) | £1,666.67 | £20,000.00 |
| Gostyngiad Cyflog | £99.00 | £1,188.00 |
| Cyfraniad AVC Personol | £1.00 | £12.00 |
| Arbediad treth | £19.80 | £237.60 |
| Yn ogystal ag arbediad treth ar £1 | £0.20 | £2.40 |
| Yn ogystal ag arbediad Yswiriant Gwladol | £7.92 | £95.04 |
| **Cyfanswm arbedion** | **£27.92** | **£335.04** |

Mae'r enghraifft uchod yn seiliedig ar y cyfraddau treth ac Yswiriant Gwladol ar gyfer 2024/25.

## 6. Pwy sy'n gymwys i gymryd rhan?

Mae holl weithwyr Cyngor Gwynedd sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn gymwys i ymuno â'r SCAVC. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr rhan amser. Fodd bynnag, gan bod SCAVC

yn gofyn am ymrwymiad o 12 mis fan leiaf, rhaid i chi gael contract cyflogaeth sy'n para mwy na 12 mis o ddyddiad cychwyn eich trefniant. Os oes gennych chi gontract o lai na 12 mis, ni fydd modd i chi gael trefniant SCAVC.
Ni all cynllun aberthu cyflog ostwng eich enillion arian parod islaw'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Pan fo cais i gymryd rhan yn y cynllun SCAVC yn golygu bod hynny'n digwydd, byddwch yn cael eich hysbysu o hyn ac fe ofynnir i chi adolygu eich cais.

**7. Pa bryd alla i ymuno â SCAVC?**

Gallech ymuno â'r cynllun SCAVC unrhyw bryd drwy gwblhau'r ffurflen gais briodol sydd ar gael gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.

Byddwch hefyd yn derbyn manylion llawn ynghylch y cyfleuster a'r Cwestiynau Cyffredin SCAVC a bydd angen i chi lofnodi i ddweud eich bod yn derbyn y telerau cyn y gall y didyniadau gychwyn. Yna, bydd yr aberthu cyflog yn cychwyn fel arfer yn y cyfnod tâl ar ôl derbyn eich cais.

**8. Sut ydw i'n ymuno â'r cynllun SCAVC?**

Am wybodaeth ar sut i ymuno â'r cynllun, cysylltwch â Chronfa Bensiwn Gwynedd naill ai ar e-bost: pensiynau@gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio (01286) 679982 neu ar eu gwefan:

https://www.gwyneddpensionfund.wales/en/Active-Members/Improving-Benefits/Improving-Benefits.aspx

I ymuno, rhaid i chi gwblhau ffurflen Addasu Contract SCAVC ynghyd â'r ffurflen cais Clerical Medical, fydd yn cael eu hanfon atoch gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.

**9. Pa bryd alla i gymryd y buddion SCAVC allan o'r trefniant hwn?**

Rhaid cymryd y buddion ar yr un pryd â phrif fuddion y cynllun pensiwn cysylltiedig ac ni ellir ei ohirio hyd ddyddiad hwyrach na'r dyddiad pan gymerir y prif fuddion pensiwn.

**10. A ddylwn i boeni am y ffaith eich bod yn gostwng fy nghyflog gros?**

Ni fydd lleihau eich cyflog gros drwy gymryd rhan yn y Cynllun SCAVC yn effeithio ar unrhyw gyflog diswyddo neu daliadau galwedigaethol yr ydych yn debygol o'u derbyn, megis Tâl Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu neu Salwch.

Bydd Cyngor Gwynedd yn defnyddio eich cyflog cyn aberthu gwreiddiol fel y sail ar gyfer y cyfrifiadau cyflogres, a byddwn yn cyfeirio ato o hyn ymlaen yn 'cyflog tybiannol'.

Gall rhai taliadau statudol, e.e. Tâl Salwch Statudol (SSP) neu Dâl Mamolaeth Statudol (SMP) fod yn is gan eu bod yn seiliedig ar yr enillion y mae YG yn daladwy arnynt; fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, mae gweithwyr yn derbyn y gyfradd uwch o naill ai'r Tâl Galwedigaethol neu Dâl Statudol.

Os ydych yn debygol o dderbyn buddion statudol yn unig am gyfnod o amser, yna dylech ystyried yn ofalus yn y lle cyntaf p'un a fydd cymryd rhan yn y cynllun SCAVC yn werth chweil i chi.

**11. Beth fydd yn digwydd os byddaf yn absennol oherwydd salwch neu famolaeth?**

Am cyhyd â'ch bod â hawl i'r taliad galwedigaethol perthnasol sy'n gysylltiedig â'ch absenoldeb – fel Tâl Salwch Galwedigaethol (OSP) neu Dâl Mamolaeth Galwedigaethol (OMP), er enghraifft – yna gall cyfraniadau SCAVC barhau.

Os byddwch mewn sefyllfa lle taliadau statudol yn unig sydd yn daladwy i chi, bydd Cyngor Gwynedd yn newid eich cyfraniadau o'r cynllun SCAVC i gynllun safonol AVC cyhyd â'ch bod yn derbyn y lefel hon o dâl.

Os bydd yr absenoldeb yn parhau fel bod yr hawl i daliadau galwedigaethol a statudol yn dod i ben, ac nad ydych bellach yn derbyn unrhyw tâl gan Cyngor Gwynedd, bydd cyfraniadau'n cael eu rhewi nes i chi dychwelyd i'r gwaith a bod tâl yn ddyledus eto.

**12. Beth fydd yn digwydd i daliadau sy'n ymwneud ag enillion, megis goramser?**

Ni fydd cymryd rhan mewn cynllun SCAVC yn effeithio ar daliadau megis goramser neu'r gyfradd premiwm am weithio yn y nos, gan y bydd rhain yn parhau i gael eu cyfrifo'n seiliedig ar eich cyflog tybiannol.

**13. A fydd fy mhensiwn CPLlL arferol yn cael ei effeithio?**

Mae Rheoliadau CPLlL yn ymdrin â SCAVC fel rhan o'ch cyflog pensiynadwy, ac felly bydd y cyfraniadau yr ydych chi a Chyngor Gwynedd yn eu gwneud i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn parhau fel pe na bai eich cyflog wedi cael ei ostwng. O ganlyniad, ni fydd eich prif fuddion CPLlL yn cael eu heffeithio wrth i chi ymuno â'r cynllun SCAVC, gan gynnwys unrhyw fuddion sy'n daladwy i'ch dibynyddion yn dilyn eich marwolaeth. Felly, byddwch yn cael yr un buddion pensiwn â rhywun nad ydynt yn talu SCAVC.

**14. Rwyf yn derbyn credydau treth ar hyn o bryd. A fydd ymuno â SCAVC yn effeithio ar fy nghymhwyster am gredydau treth?**

Gan bod treth yn cael ei chyfrifo yn seiliedig ar eich incwm trethadwy (P60), bydd unrhyw gyfranogwr newydd yn y cynllun SCAVC yn gweld gostyngiad yn eu cyflog trethadwy ac felly fe allai eich cymhwyster am gredydau treth newid. O ystyried y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chyfrifo cymhwyster am gredydau treth, os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, ewch draw i: https://www.gov.uk/topic/benefits-credits/tax-credits am ragor o wybodaeth neu cysylltwch â llinell gymorth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar 0845 300 3900.

**15. Rwyf yn ad-dalu benthyciad myfyriwr ar hyn o bryd; a fydd hyn yn newid fy ad-daliadau?**

Bydd, bydd yn newid gan fod yr ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar y cyflog yr ydych yn talu Yswiriant Gwladol arno. Dan SCAVC, bydd y cyflog gros y telir Yswiriant Gwladol arno yn gostwng, ac felly bydd eich ad-daliadau benthyciad yn lleihau. Dylech gadw mewn cof y bydd unrhyw ostyngiad yn eich ad-daliadau benthyciad yn arwain atoch yn ad-dalu eich benthyciad myfyriwr am gyfnod ychwanegol o amser.

**16. A fydd cymryd rhan mewn SCAVC yn effeithio ar unrhyw fuddion sy'n seiliedig ar gyfraniadau?**

Os yw'r SCAVC yn golygu bod eich cyflog gros yn llai na'r Cyfyngiad Enillion Isaf (LEL) ar gyfer Yswiriant Gwladol, gallai effeithio ar eich cymhwyster yn y pen draw at Bensiwn Ymddeoliad Gwladol Sylfaenol ac fe allech golli'ch cymhwyster am fuddion penodol eraill. Felly, os yw'ch cyflog misol yn llai na'r LEL o £520 y mis, neu £6,240 y flwyddyn yn 2021/22 (mae'r trothwyon hyn yn amrywio bob blwyddyn), dylech ystyried yr effaith bosib yn ofalus cyn ymuno â'r cynllun SCAVC.

**17. Alla i gymryd rhan mewn unrhyw drefniadau aberthu cyflog eraill?**

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd yn rhoi cyfle i staff gymryd rhan mewn trefniadau aberthu cyflog eraill. Gallwch gymryd rhan mewn mwy nag un, ond, os bydd cyfanswm eich aberthu cyflog yn golygu bod eich enillion yn mynd yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, bydd angen i chi ystyried pa gynllun(iau) i ymuno â hwy.

**18. Alla i dynnu'n ôl o SCAVC?**

Fel arfer, dan delerau cytundeb aberthu cyflog, ni chaniateir canslo am o leiaf 12 mis ar ôl i chi ymrwymo i'r cynllun. Pan fyddwch yn ymuno â'r SCAVC, rhaid i chi gael contract sy'n para am o leiaf 12 mis.

Os byddwch yn dymuno lleihau neu gynyddu eich cyfraniadau, cewch wneud hyn unrhyw bryd, hyd yn oed yn y 12 mis cyntaf, ar yr amod eich bod yn cwblhau ac yn cyflwyno'r ffurflen briodol, sydd ar gael gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.

**19. Sut alla i amrywio fy nghyfraniad misol?**

Dan delerau'r SCAVC, caniateir i chi amrywio lefel y cyfraniadau yn fisol. Pan fyddwch yn dymuno amrywio eich cyfraniadau, bydd angen i chi roi gwybod i Gronfa Bensiwn Gwynedd. Gellir gwneud hyn drwy gysylltu â hwy drwy unrhyw un o'r dulliau a nodir yn adran 21, isod.

**20. Beth sy'n digwydd os wyf yn gadael fy nghyflogaeth?**

Os bydd eich cyflogaeth â Chyngor Gwynedd yn dod i ben am ba bynnag reswm, bydd eich cymhwyster i gymryd rhan yn yr SCAVC yn dod i ben pan fyddwch yn gadael. Os oes gennych chi aelodaeth CPLlL o ddwy flynedd neu fwy, bydd eich cynllun SCAVC yn parhau i gael ei fuddsoddi a bydd ar gael i ddarparu buddion ychwanegol i chi pan fyddwch yn ymddeol. Fel arall, mae modd i chi drosglwyddo eich holl fuddion SCAVC llywodraeth leol i unrhyw gynllun pensiwn arall o'ch dewis sy'n fodlon derbyn y trosglwyddiad.

Os yw eich aelodaeth CPLlL yn llai na dwy flynedd pan fyddwch yn gadael eich cyflogaeth â Chyngor Gwynedd, gallwch ddewis derbyn ad-daliad sy'n gyfwerth â gwerth cyflawnadwy eich cynllun SCAVC. Noder y bydd gwerth eich ad-daliad SCAVC yn lleihau i gymryd i ystyriaeth y rhyddhad treth yr ydych wedi'i gael yn ystod y cyfnod pan oeddech yn talu cyfraniadau.

**21. Lle alla i gael rhagor o wybodaeth am fy mhensiwn a SCAVC?**

Gallwch gysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd naill ai ar e-bost: pensiynau@gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio (01286) 679982 neu ar eu gwefan: https://www.gwyneddpensionfund.wales/en/Active-Members/Improving-Benefits/Improving-Benefits.aspx

**Noder na all Cronfa Bensiwn Gwynedd, eich cyflogwr na'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol roi cyngor i chi ar addasrwydd SCAVC. Os ydych yn ansicr p'un a ydynt yn addas i chi, bydd angen i chi geisio cyngor ariannol arbenigol gan ymgynghorydd ariannol o'ch dewis.**